

Memorandwm Esboniadol ar gyfer cynnwys UCAS yn Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig y gwaith diwygio i Reoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2022.

Jeremy Miles AS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

14 Mehefin 2022

Disgrifiad

1. Mae'r rheoliadau hyn yn estyn gallu Llywodraeth Cymru i rannu data ar ddisgyblion unigol yng Nghymru gyda Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS).

Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2. Dim

Y cefndir deddfwriaethol

3. O dan adran 537A o Ddeddf Addysg 1996, caniateir gwneud Rheoliadau i ragnodi personau y gellir rhannu data â hwy. Mae Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007, ar hyn o bryd yn caniatáu i ddata gael eu rhannu â rhestr o bersonau penodol sydd wedi'u rhagnodi, gan gynnwys Cymwysterau Cymru ac Ofqual, ond nid yw UCAS ar y rhestr honno ar hyn o bryd. Yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth, y bwriad yw diwygio'r Rheoliadau presennol er mwyn ychwanegu UCAS at y rhestr o bersonau â ragnodir y caiff Gweinidogion Cymru ddarparu gwybodaeth am ddisgyblion unigol â hwy.
4. Mae'n ofynnol gwneud gwaith diwygio hefyd i sicrhau bod rhannu data personol ag UCAS yn bodloni un o'r seiliau cyfreithlon yn Erthygl 6(1) o Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y Deyrnas Unedig. Y sail gyfreithlon arferol y dibynnir arni yw Erthygl 6(1)(e) lle mae prosesu'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg gyhoeddus ond yn absenoldeb pŵer statudol, mae'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol o'r farn nad oes yr un o'r seiliau cyfreithlon yn Erthygl 6(1) yn briodol.
5. Mae'r adrannau hyn yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau mewn perthynas â darparu gwybodaeth i drydydd partïon gan Lywodraeth Cymru.
6. Mae'r Rheoliadau'n cael eu gwneud o dan y weithdrefn negyddol.

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

7. Er mwyn ehangu cyfranogiad mewn Addysg Uwch a sicrhau bod dysgwyr difreintiedig yng Nghymru yn cael eu trin yn gyfartal â gweddill y Deyrnas Unedig, rydym yn bwriadu gweithredu newid deddfwriaethol parhaol i ganiatáu i Weinidogion Cymru rannu data Prydau Ysgol am Ddim y rhai sy'n gadael yr ysgol (ym mlwyddyn 13) gydag UCAS.
8. Bydd UCAS yn cynnal ymarfer paru data i ddarparu meincnod Prydau Ysgol am Ddim ar y ceisiadau a ddaw i law gan ddysgwyr o Gymru. Bydd hyn yn darparu gwybodaeth gyd-destunol i gynorthwyo gyda derbyniadau i

brifysgolion er mwyn sicrhau bod cynigion yn cael eu gwneud i ddysgwyr difreintiedig a bod cyfranogiad mewn Addysg Uwch yn cael ei ehangu.

9. Bydd ychwanegu UCAS at y partïon a enwir yn y rhestr yn Reoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2022 yn galluogi Llywodraeth Cymru i rannu'r data hyn.

Ymgynghori

10. Nid oes dyletswydd statudol i ymgynghori mewn perthynas â'r rheoliadau hyn.
11. Bernir bod y gwaith diwygio hwn yn un brys er mwyn cael data yn eu lle ar gyfer ei ddefnyddio gan brifysgolion yn y broses glirio a chadarnhau ym mis Awst. Felly ni fyddai unrhyw ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar gam ffurfiannol y broses o ddatblygu polisi (yn unol ag egwyddorion Gunning) ac felly ni chafodd ei ystyried yn briodol yn yr achos hwn.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

12. Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.
13. Oherwydd y costau a'r manteision tebygol o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn, nis ystyrir bod cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn angenrheidiol. Goblygiadau rhoi Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2022 yn eu lle yw y bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu set ddata ag UCAS unwaith ym mhob blwyddyn academaidd, ac o'r herwydd bydd y baich a'r costau yn eithriadol o fach, ac nid yw'n rhoi baich ar unrhyw un y tu allan i Lywodraeth Cymru.